Pam ddylwn i roi organau?

Rhoi organau yw'r weithred o drawsblannu organ er mwyn achub neu wella bywyd rhywun.

Gallwch roi rhai organau pan rydych yn fyw, ee, aren neu ran o'ch afu....





... ond bydd y rhan fwyaf o organau a meinweoedd yn cael eu rhoi gan bobl sydd wedi marw.

Mae dros 50,000 o bobl yn fyw heddiw, ar draws y DU, diolch i haelioni rhoddwyr organau a'u teuluoedd.

Ond ar hyn o bryd, mae tua 6,000 o bobl sy'n ddifrifol wael yn aros am drawsblaniad i achub eu bywydau.



Gallwch gofrestru eich penderfyniad i roi organau drwy gytuno i fod yn rhoddwr ar Gofrestr Rhoddwyr Organau y GIG. Rhowch wybod i'ch teulu am eich penderfyniad.





Mae tri o bobl yn marw bob dydd wrth aros am drawsblaniad



Ewch i organdonation.nhs.uk a chofrestrwch nawr

Cofrestrwch nawr a dywedwch wrth eich teulu eich bod am roi rhodd bywyd